CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth Medi 12fed 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Elen H Edwards, Clwyd Roberts

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, D Gwynfor Davies, Ann O Vaughan, Gerallt Evans, Einir Williams, Cyng Garffild L Lewis a'r Clerc

70.0 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Diane Roberts gysylltiad ag Eitem 6a Cais Cynllunio 0/44269

70.1 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 2il Awst 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

70.2 MATERION YN CODI
70.2.1 MAES CLEDWEN (69.4.1) - cynigiwyd dyddiadau i Mr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Cartrefi Conwy – sef Medi 26ain neu Hydref 3ydd.
70.2.2 AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL (69.7) – anfonwyd sylwadau erbyn y dyddiad cau a chafwyd ymateb gan Brif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau.
70.2.3 CAIS ARIANNOL (69.6) – deallir nad yw Grace Charles yn bwriadu mynychu'r cwrs ar hyn o bryd.
Cyrhaeddodd Einir Williams y cyfarfod.
70.2.4 CYNIGION CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS (69.16) – derbyniwyd y chwe chynnig fydd o flaen y Cyfarfod Blynyddol ar 30ain Medi ond nid oedd y cyfieithiad Cymraeg yn eglur iawn. PENDERFYNWYD i'r Cadeirydd bleidleisio yn unol â'i farn.
70.2.5 PARC CHWARAE GWYTHERIN (69.4.2) – adroddwyd bod y contractwyr wedi gwneud gwaith canmoladwy wrth yr afon a PHENDERFYNWYD i ysgrifennu at Gyngor Conwy i ddiolch iddynt.
70.2.6 BAND EANG GWYTHERIN (69.15) – adroddodd y Cynghorydd Lewis iddo gael gair a Mr Geraint Strello (BT) a'u bod am drefnu cyfarfod cyhoeddus yng Ngwytherin.

70.3 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
70.3.1 PONT HENDRE DDU – cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Lewis bod gwaith yn mynd yn ei flaen.
70.3.2 PONT AFON GALL – trafodwyd bod yr afon yn bwyta y tu ôl i'r bont a chynigiodd y Cynghorydd Lewis gysylltu â Mr Bryn Shilland ynglŷn a hyn.

70.4 MATERION CYNLLUNIO
70.4.1 Cais Rhif 0/44269 Bwriad i godi estyniad a gwneud newidiadau mewnol yn Llannerch, Llangernyw gan Mr Alan & Catrin O'Malley & Griffiths – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
70.4.2 Cais Rhif 0/44276 Ailgodi cyn-annedd ar waliau presennol er mwyn creu annedd newydd a mynedfa cerbydau, cau'r fynedfa bresennol; draeniad heb fod yn gysylltiedig â'r prif bibellau yn Pen Gloddfa, Pentre, Llangernyw gan Mr & Mrs T Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

70.4.3 Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014 – nodwyd yr ohebiaeth.
70.4.4 Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych – nodwyd yr ohebiaeth a gwnaed cais am gopi gan Diane Roberts
70.4.5 Diweddariad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (Conwy) – PENDERFYNWYD i anfon copi i'r aelodau. Trafodwyd yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal.

70.5 RHODD ER COF AM Y DIWEDDAR TECWYN EVANS – yn dilyn gwaith ymholi PENDERFYNWYD i gyflwyno cwpan er cof tuag at Sioe Amaethyddol Gwytherin. Amcangyfrifir y gost tua £120. Hefyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf. Yn ychwanegol, PENDERFYNWYD i roi 'Cwpan y Cyngor i Sioe Arddio Llangernyw' ar yr Agenda nesaf.

70.6 SWYDD Y CLERC – penderfynwyd i gynnal cyfarfod byr ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor.

70.7 PWYLLGOR CANOLFAN BRO CERNYW – enwebwyd Clwyd Roberts ar y pwyllgor a chytunodd y Cadeirydd fod arno am flwyddyn yn rhinwedd ei swydd.

70.8 TOILEDAU CYHOEDDUS LLANGERNYW – derbyniwyd gohebiaeth gan Mr Steve Teale, Adran Amgylcheddol Conwy yn nodi y bydd grant yn cael ei dalu i Fenter Bro Cernyw am ofalu am y toiledau unwaith byddant wedi eu trosglwyddo yn swyddogol. Bydd £300 yn cael ei dalu i'r Fenter am 2016/17 oherwydd eu gwaith yn agor a chau a chynnal rhan o'r gwasanaethau. Roedd yn awyddus i'w staff orffen glanhau'r toiledau yn fuan. PENDERFYNWYD gofyn i Mr Teale fydd y swm yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Fenter ac i holi'r Cyfreithwyr beth oedd y datblygiadau ynglŷn a'r trosglwyddo. PENDERFYNWYD i drosglwyddo £1000 i Menter Bro Cernyw (£500 o Gronfa Bro Cernyw a £500 o gronfa'r Cyngor Cymuned) a bydd angen talu'r gweddill sy'n ddyledus ar ôl cwblhau'r trosglwyddiad.

Gadawodd Gerallt Evans y cyfarfod.
70.9 DIFFIBRILYDD – gwnaeth Einir Williams ymholiadau gyda Community Heartbeat Trust. PENDERFYNWYD i ofyn i Bwyllgor Canolfan Gwytherin a Phwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur iddynt ystyried gwneud cais i Gronfa Bro Cernyw am grant tuag at brynu a gosod diffibrilydd yn y pentrefi a chyflwyno'r manylion iddynt.

70.10 CYTUNDEB BLYCHAU FFÔN – derbyniwyd y cytundeb gan BT a dewiswyd Diane Roberts i gynorthwyo trwy gael golwg arno.

70.11 PWYLLGOR MYNWENTYDD – PENDERFYNWYD i gael cyfarfod safle i wneud arolwg o'r bedair mynwent ar fore Sadwrn – y Clerc i drefnu.

70.12 PWYLLGOR ASESIAD A RHEOLAETH RISG – y Clerc i anfon copïau i'r aelodau ac i gyfarfod cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

70.13 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon ebost i'r aelodau gyda rhai o'r eitemau.

70.14 MATERION LLEOL
70.14.1 Penderfynwyd gofyn i'r Clwb Garddio fod yn gyfrifol am y blychau blodau pren dros y gaeaf.
70.14.2 Angen gofyn i Gyngor Conwy os ydynt am osod blodau gaeaf yn eu tybiau blodau hwy, hefyd bod blwch pren ger Fedwen Arian wedi ei ddifrodi gan y torrwr gwair, a gofyn iddynt gychwyn gyda phentref Gwytherin wrth lenwi tybiau y tro nesaf.

70.14.3 Adroddodd Cynghorydd Garffild Lewis y bydd ymweliad 'audit' gan Gyngor Conwy unwaith y flwyddyn ac fe'i gynhaliwyd ym mis Mawrth eleni. Bydd Cyngh Lewis yn cynnal syrjeri yn y pedwar pentref yn fuan.
70.14.4 Angen arwydd ARAF ger stad Fedwen Arian, Llangernyw neu arwydd plant yn cerdded.
70.14.5 Plant Llangernyw yn gorfod cerdded ar hyd ffordd brysur – angen arwyddion 20mya – y Clerc i gysylltu a Mr Vic Turner.
70.14.6 Bydd cynghorwyr Gwytherin yn cadw golwg ar allt Tyn Bryn – bwriada'r Adran Ffyrdd wneud gwaith yno.
70.14.7 Adroddodd y Clerc bod Sam Jones, Swyddog Cŵn wedi gosod dau arwydd newydd wrth Ysgol Bro Cernyw ac wrth gae chwarae Pandy Tudur. Bydd cwmni 'Kingdom' yn arolygu'r ardaloedd dan sylw ond gofynnir i aelodau'r Cyngor gynorthwyo.

70.15 BILIAU

D Evans (Pumed toriad Mynwentydd)	£380
Un Llais Cymru (Cofrestru i'r Gynhadledd)	£80
Menter Bro Cernyw (Toiledau)	£500
(Menter Bro Cernyw o Gronfa Bro Cernyw	£500)

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50 yr hwyr.

Cymeradwywyd y Cofnodion...Einir Williams..... Dyddiad ..3ydd Hydref 2017.....

A meeting of the Community Council was held on Tuesday September 12th 2017 at 7:30 at the Gwytherin Centre

Apologies: Elen H Edwards, Clwyd Roberts

Present: Gwyn Williams (Chair), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, D Gwynfor Davies, Ann O Vaughan, Gerallt Evans, Einir Williams, Cllr Garffild L Lewis and Clerk

70.0 DECLARATIONS OF INTEREST - Diane Roberts declared an interest in Item 6a Planning Application 0/44269

70.1 MINUTES - the minutes of the meeting held on August 2nd 2017 were looked at and it was unanimously RESOLVED that they were correct.

70.2 MATTERS ARISING
70.2.1 MAES CLEDWEN (69.4.1) - dates were offered to Mr Gwynne Jones, Director of Cartrefi Conwy - those being September 26th or October 3rd.
70.2.2 REVIEW OF ELECTORAL ARRANGEMENTS (69.7) - observations were sent by the deadline and a response was received from the Boundary Commission's Chief Executive.
70.2.3 FINANCIAL APPLICATION (69.6) - it is understood that Grace Charles no longer intends to attend the course.
Einir Williams arrived at the meeting.

70.2.4 ONE VOICE WALES' AGM PROPOSALS (69.16) - the six proposals before the AGM on September 30th were received but the Welsh translation was not very clear. It was RESOLVED for the Chair to vote at their discretion.
70.2.5 GWYTHERIN PLAY AREA (69.4.2) - it was reported that the contractors have done praiseworthy work down by the river and it was RESOLVED to write to Conwy Council to thank them.
70.2.6 GWYTHERIN BROADBAND (69.15) - Cllr Lewis reported that he had spoken with Mr Geraint Strello (BT) and they will be holding a public meeting in Gwytherin.

70.3 ENVIRONMENTAL AND ROAD MATTERS
70.3.1 HENDRE DDU BRIDGE - Cllr Lewis reported that work is ongoing.
70.3.2 PONT AFON GALL - it was discussed that the river is eating away behind the bridge and Cllr Lewis offered to contact Mr Bryn Shilland about this matter.

70.4 PLANNING MATTERS
70.4.1 Application No. 0/44269 Proposal to erect an extension and make internal changes at Llannerch, Llangernyw by Mr Alan & Catrin O'Malley & Griffiths - it was RESOLVED unanimously to support the application.
70.4.2 Application No. 0/44276 Re-erection of former dwelling on current walls in order to create new dwelling and vehicle entrance, close off the current entrance; drainage not linked to the main pipes at Pen Gloddfa, Pentre, Llangernyw by Mr & Mrs T Davies - it was RESOLVED unanimously to support the application.
70.4.3 Clocaenog Forest Wind Farm Order 2014 - correspondence was noted.
70.4.4 Denbighshire Local Development Plan Review Report - correspondence was noted and Diane Roberts asked for a copy.
70.4.5 Update on the Supplementary Planning Guidelines (Conwy) - it was RESOLVED to send a copy to the members. The need for affordable housing in the area was discussed.

70.5 DONATION IN MEMORY OF THE LATE TECWYN EVANS - following some queries it was RESOLVED to present a memorial cup to Gwytherin Agricultural Show. The cost is estimated at £120. Also, to include the matter on next month's agenda. In addition, it was RESOLVED to include 'The Council's Cup to Llangernyw Horticultural Show' on next month's agenda.

70.6 CLERK POSITION - it was resolved to hold a short meeting at the end of the Council's meeting.

70.7 CANOLFAN BRO CERNYW COMMITTEE - Clwyd Roberts was nominated to the committee and the Chair agreed to be on the committee for a year as part of their role.

70.6 LLANGERNYW PUBLIC TOILETS - correspondence was received by Mr Steve Teale, Conwy Environmental Department, explaining a grant will be paid to Menter Bro Cernyw for looking after the toilets once they have officially been handed over. £300 will be paid to the Menter for 2016/17 for their work in opening and closing the toilets and maintaining part of the services. He was keen for his staff to finish cleaning the toilets soon. It was RESOLVED to ask Mr Teale whether the sum will be paid directly to the Menter and to ask the Solicitors about the handover development. It was RESOLVED to transfer £1000 to Menter Bro Cernyw (£500 from the Bro Cernyw Fund and £500 from the Community Council's Fund) and the remaining amount due to be paid after completion of the handover process.

Geralllt Evans left the meeting.
70.9 DEFIBRILLATOR - Einir Williams made queries to Community Heartbeat Trust. It was RESOLVED to ask Gwytherin Centre Committee and Pandy Tudur Social Committee to consider applying for a grant from the Bro Cernyw Fund towards buying and installing a defibrillator in the villages and present them with information.

70.10 TELEPHONE KIOSKS CONTRACT - the contract by BT was received and Diane Roberts was chosen to assist by taking a look at it.

70.11 CEMETERIES COMMITTEE - it was RESOLVED to hold a site meeting to survey the four cemeteries on a Saturday morning - Clerk to arrange.

70.12 RISK MANAGEMENT AND ASSESSMENT COMMITTEE - Clerk to send copies to the members and hold a meeting before the next Council meeting.

70.13 CORRESPONDENCE - Clerk to send an e-mail to all members with some items.

70.12 LOCAL MATTERS
70.14.1 It was resolved to ask the Gardening Club to be responsible for the wooden flower boxes over the winter.
70.14.2 Need to ask Conwy Council whether they are going to be putting winter flowers in their flower boxes, also that the wooden box near Fedwen Arian has been damaged by the grass cutter and ask them to start with the village of Gwytherin first as the fill the tubs next time.
70.14.3 Cllr Garffild Lewis reported that there will be an audit visit from Conwy Council once a year and it will be held in March this year. Cllr Lewis will soon be holding surgeries in the four villages.
70.14.4 Need a SLOW sign next to Fedwen Arian estate, Llangernyw or children walking sign.
70.14.5 Children in Llangernyw walk along a very busy road - need 20mpa signs - Clerk to contact Mr Vic Turner.
70.14.6 Gwytherin Councillors will be keeping a close eye on Tyn Bryn hill - the Highways Department intend to carry out some work.
70.14.7 The Clerk reported that Sam Jones, the Dog Officer, has installed two new signs by Ysgol Bro Cernyw and next to the play area in Pandy Tudur. 'Kingdom' company will be reviewing the named areas but ask that the Council's members assist them in their work.

70.15 BILLS

D Evans (Fifth Cemeteries cut)	£380
One Voice Wales (Conference Registration)	£80
Menter Bro Cernyw (Toilets)	£500
(Menter Bro Cernyw from Bro Cernyw Fund	£500)

The meeting concluded at 9:50pm.

Minutes Approved...Einir Williams..... Date..3rd October 2017.....